**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**9fed Mai 2011**

**Aelodaeth o'r Gweithgor Cynllunio i Leihau Risg**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 I ofyn am enwebiadau am aelodaeth i'r Gweithgor Cynllunio i Leihau Risg

2 I gadarnhau diben y Gweithgor.

## Cefndir

3 Sefydlwyd y Gweithgor Lleihau Risg yn wreiddiol yn 2006 er mwyn:

"derbyn a dadansoddi'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Lleihau Risg yr Awdurdod ar gyfer 2007/08, ac i lunio argymhelliad i'r Awdurdod Tân ac Achub parthed mabwysiadu'r Cynllun, a thelerau ymateb yr Awdurdod i'r sylwadau a dderbyniwyd".

4 Roedd sefydlu Gweithgor yn golygu fod holl aelodau'r Panel Gweithredol yn gallu cwrdd yn anffurfiol i drafod materion y Cynllun Lleihau Risg. Roedd y Gweithgor yn parhau i gyfarfod yn flynyddol hyd 2008 pan wnaeth gweithgor y Cynllun Lleihau Risg, gyda chefnogaeth y Panel Gweithredol, sefydlu is-weithgor o'r enw "Gwasanaeth Tân ac Adolygu Risg'. Roedd yr Aelodau fel a ganlyn: Cynghorydd S Frobisher, A M Jones, B Dunn, T Evans, T Roberts a W P Roberts).

5 Roed yr is-weithgor yn cwrdd pob dwy i dair wythnos am gyfnod o dri mis yn arwain at ddrafftio’r ddogfen ymgynghori, i fapio a dadansoddi risg ac ystyried adnoddau sydd ar gael er mwyn hysbysu’r Cynllun Lleihau Risg a’r ddogfen ymgynghori berthnasol.

6 Hefyd, oherwydd y sefyllfa economaidd ddifrifol, sefydlwyd Gweithgor Datblygu Cyllid bychan yn 2010 i drafod opsiynau’r gyllideb yn fanwl cyn gwneud argymhellion i’r Panel Gweithredol ac yna i’r Awdurdod. Roedd ei aelodau'r un a’r is-weithgor oni bai fod y Cynghorydd J V Owen yn cynrychioli Ynys Môn yn hytrach na’r Cynghorydd A M Jones.

7 Mae adroddiadau cynnydd gan y gweithgor wedi cael eu rhoi i’r Panel Gweithredol yn rheolaidd a’i holl benderfyniadau wedi eu dilysu gan y Panel Gweithredol.

**Gwybodaeth**

8 Oherwydd y wybodaeth yn eitem 10 ar yr agenda, does dim angen ailymgynnull y Gweithgor Lleihau Risg i weithio ar yr amcanion diweddaraf yn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Fodd bynnag, oherwydd yr angen i ostwng y gyllideb o £1 miliwn arall, argymhellir ymgynnull Gweithgor i weithio trwy’r gwahanol opsiynau nodwyd yn Llyfryn Opsiynau Lleihau’r Gyllideb. Bydd hyn yn caniatáu’r Aelodau i ddeall goblygiadau llawn yr effeithiau ariannol a’r risgiau sydd ynghlwm â’r opsiynau yma fydd yn cynorthwyo’r Panel Gweithredol i wneud penderfyniadau yn ystod y broses gosod cyllideb yn yr Hydref.

**Argymhelliad**

9 Gofynnir i’r Panel Gweithredol:

(i) gadarnhau rôl y Gweithgor newydd;
(ii) benderfynu ar y nifer o aelodau sydd eu hangen yn y gweithgor; ac
(iii) enwebu aelodau i’r gweithgor.

10 Gofynnir i aelodau nodi y disgwylir i’r gweithgor gwrdd yn rheolaidd o fis Mehefin hyd Tachwedd.